

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

27/2026

DYDDIAD CYHOEDDI:

19/02/2026

Crynodeb o'r Adroddiad Technegol ar Brawf Maes Arolwg Cenedlaethol Cymru 2023 i 2024

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-059-6

Crynodeb o'r Adroddiad Technegol ar Brawf Maes Arolwg Cenedlaethol Cymru 2023-24

Awduron:

Stuart Grant, Miché George, David Xu (Verian)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Grant, George, Xu; Awduron (Chwefror 2026).
*Crynodeb o'r Adroddiad Technegol ar Brawf Maes Arolwg Cenedlaethol Cymru
2023-24 Caerdydd*: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y
Llywodraeth 27/2026.
Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-gwybodaeth-
dechnegol](https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-gwybodaeth-dechnegol)

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid
rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r canlynol:

Tîm Arolwg Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

03000 251 067

E-bost: arolygon@llyw.cymru

Tabl y cynnwys

Rhestr termau	3
1. Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg	4
Trosolwg o Arolwg Cenedlaethol Cymru	4
Peilot 2023-24	4
Prawf Maes 2023-24	4
Strwythur yr adroddiad	5
2. Peilot 2023-24	6
3. Samplu	7
Dewis cyfeiriadau	7
Sypynnu a dyrannu samplau	7
Dewis unigolion	8
4. Cynnwys a datblygu'r holiadur	9
Trosolwg o'r holiadur	9
Cynnwys a datblygu'r holiadur	10
Rhaglennu a phrofi'r holiadur	11
Cyfieithiad Cymraeg	11
Amseriadau'r cyfweiliadau	12
Ffracsiynau is-samplu	12
5. Gwaith maes	13
Briffio'r cyfwelwyr.....	13
Goruchwyllo a rheoli ansawdd	14
Dogfennau'r gwaith maes.....	15
Cyfweiliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill	16
Cyfweiliadau â chymorth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb	16
Arolwg ar-lein	17
Deilliannau'r sampl	18
Cyfweiliadau dros y ffôn a gyflawnwyd.....	19
Cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb a gyflawnwyd	21
Arolygon ar-lein a gyflawnwyd.....	23

	Arolygon CASI a gyflawnwyd	24
6.	Prosesu ac allbwn data	25
	Codio a golygu data	25
	Newidynnau deilliadol.....	26
	Allbynnau data	26
7.	Canfyddiadau ac argymhellion	27
	Cyfradd ymateb a chyfansoddiad y sampl.....	27
	Tabl 8: Cofrestriadau ar y porth fesul wythnos	27
	Adborth cyfwelwyr	28
	Problem gyda negeseuon llais	28
	Amseriadau yn ôl modd.....	29
	Tabl 9: Amseriadau yn ôl modd.....	29
	Prosesau technegol.....	30
	Trosolwg o berfformiad.....	31
8.	Atodiad – Deunyddiau ar gyfer ymatebwyr yn y Prawf Maes	33

Rhestr termau

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ALI	Awdurdod Lleol
Arolwg Cenedlaethol	Arolwg Cenedlaethol Cymru
CAPI	Cyfweld personol gyda chymorth cyfrifiadur
CASI	Hunan-gyfweld gyda chymorth cyfrifiadur
CATI	Cyfweld dros y ffôn gyda chymorth cyfrifiadur
CAWI	Cyfweld dros y we gyda chymorth cyfrifiadur
LIC	Llywodraeth Cymru
PAF	Ffeil Cyfeiriad Cod Post y Post Brenhinol

1. Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg

Trosolwg o Arolwg Cenedlaethol Cymru

- 1.1 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru'n cynnwys oddeutu 10,000 o bobl bob blwyddyn ledled Cymru gyfan ac fe'i cynhelir gan Verian (Kantar Public gynt) a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru (LIC), Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- 1.2 Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn ymgorffori cwestiynau arolwg i gasglu tystiolaeth ar draws ystod amrywiol o feysydd polisi, megis iechyd a lles, chwaraeon, y celfyddydau, diwylliant, ymddygiad teithio, agweddau tuag at newid hinsawdd ac ymddygiadau gwyrdd (gan gynnwys ailgylchu), amddifadedd materol a defnyddio banciau bwyd, a defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a boddhad gyda hwy.
- 1.3 O ganlyniad i bandemig Covid, fe wnaed newidiadau sylweddol i'r Arolwg Cenedlaethol ers 2020, gan newid o gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb i gyfweiliadau dros y ffôn. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae dyluniad newydd yr arolwg yn ymgorffori arolwg dros y ffôn dan arweiniad cyfwelydd (CATI) gyda chyfweliad hunan-gwblhau ar-lein (CAWI) wedyn, ochr yn ochr â dewis arall i gael arolwg wyneb-yn-wyneb dan arweiniad cyfwelydd (CAPI) gan gynnwys adran hunan-gwblhau ar lechen (CASI).

Peilot 2023-24

- 1.4 Cynhaliwyd peilot seiliedig-ar-gwotâu rhwng 7 ac 19 Medi 2023, gyda'r nod o adnabod unrhyw broblemau mawr gyda chynnwys neu brosesau'r arolwg ac i'w gwneud yn bosibl cywiro'r rhain cyn y Prawf Maes. Ar y cyfan, fe wnaeth 32 gwblhau'r arolwg fel rhan o'r peilot, gyda phob un yn cael taleb £20 yn gymhelliad. Ar y cyfan, roedd 11 o arolygon dros y ffôn (a gwblhawyd trwy ddulliau CATI/ CAWI) a 21 o arolygon wyneb-yn-wyneb (a gwblhawyd trwy ddulliau CAPI/ CASI). Trafodir hyn mewn mwy o fanylder yn Adran 2, isod.

Prawf Maes 2023-24

- 1.5 Yn ystod 2023-24 cafwyd saib yng ngwaith maes prif gam yr Arolwg Cenedlaethol, tra'r oedd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i gyflawni'r arolwg trwy'r asiantaethau

newydd, gyda nifer o newidiadau'n cael eu gwneud i ddyluniad yr arolwg ochr yn ochr â hyn (e.e. ailgyflwyno cyfweliad yn y cartref).

- 1.6 I sicrhau bod risgiau o ran newidiadau i'r dyluniad yn gallu cael eu rheoli'n briodol a bod y mesurau lliniaru angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith, fe amserlennwyd prawf ar raddfa fawr o'r dull ("Prawf Maes") rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, gan amcanu at gyflawni 2,000 o gyfweliadau.
- 1.7 Fodd bynnag, oherwydd gwaith sefydlu ychwanegol, fe ohiriwyd y Prawf Maes ac yn lle hynny fe'i cynhaliwyd yn ystod mis Rhagfyr 2023 ac fe gaeodd ar ddiwedd wythnos gyntaf mis Ionawr 2024.
- 1.8 Yn y pen draw fe wnaeth y Prawf Maes gynnwys 219 o gyfranogwyr, y cafodd 166 ohonynt gyfweliadau dros y ffôn ac y cafodd 53 ohonynt eu cyfweld yn y cnawd. Cynigiwyd taleb siopa a oedd yn werth £15 i'r cyfranogwyr i ddiolch iddynt am gymryd rhan yn yr arolwg.

Strwythur yr adroddiad

- 1.9 Er bod yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg byr o beilot mis Medi (Adran 2) mae'r mwyafrif o'r adroddiad yn canolbwyntio ar y Prawf Maes. Yn gyntaf ceir disgrifiad o'r dyluniad a'r fethodoleg, gan ddechrau â chrynodeb o'r gwaith samplu (Adran 3), cyn symud ymlaen at gynnwys a datblygu'r holiadur (Adran 4), gwaith maes (Adran 5), prosesu ac allbwn data (Adran 6), cyn symud ymlaen at y canfyddiadau a'r argymhellion (Adran 7). Mae'r deunyddiau ar gyfer ymatebwyr a ddefnyddiwyd yn y Prawf Maes wedi'u cynnwys yn yr atodiad (Adran 8).

2. Peilot 2023-24

- 2.1 Cynhaliwyd peilot seiliedig-ar-gwotâu ym mis Medi 2023 gan dargedu maint sampl o 30, mewn nifer fach o awdurdodau lleol (chwech). Diben y peilot oedd profi cynnwys yr arolwg, ymarferoldeb y gwahanol elfennau o'r arolwg a'r prosesau ehangach a oedd yn gysylltiedig â'r arolwg yn y maes, cyn dechrau'r Prawf Maes. Cynhaliwyd y peilot mor agos â phosibl at brotocolau gwaith maes safonol er mwyn profi prosesau'r arolwg. Cynigiwyd e-daleb/ taleb bost £20 yn gymhelliad i gyfranogwyr ar ôl cwblhau'r cyfweiliad cychwynnol ac adran hunan-gwblhau'r arolwg.
- 2.2 Yn ystod gwaith i sefydlu sgript yr holiadur, fe wnaed nifer o addasiadau i ddechrau'r sgript a'r camau hwyrach ynddi, gan gynnwys y ddwy adran hunan-gwblhau (CAWI / CASI), fel bod modd gwneud gwaith maes dros y ffôn neu yn y cartref.
- 2.3 Oherwydd cyfyngiadau ar y llinell amser fe wnaed gwaith maes rhwng 7 ac 19 Medi 2023.
- 2.4 Er gwaethaf y ffrâm amser gywasgedig, dim ond problemau cyfyngedig gwnaeth y data eu dynodi gyda'r sgript ei hun, gyda nifer fach o gwestiynau angen newidiadau i fireinio'r hidlwyr/ rhesymeg, gan gynnwys y fformat ar gyfer rhoi ymatebion i mewn yr oedd cyfwelwyr yn ei ddefnyddio ar gyfer WalkTime, ModActTime a VigActTime i ddynodi'r oriau a'r munudau'n glir, ac yn y modiwl Celfyddydau a Diwylliant i ymdrin â mân anghysonderau o ran yr hidlwyr.
- 2.5 Ochr yn ochr â hyn, fe adnabu'r sesiynau ôl-drafod gyda chyfwelwyr rai mân welliannau ychwanegol, er enghraifft cafodd y sgript a'r cyfarwyddiadau i gyfwelwyr ar gyfer y newid o gyfweiliad dros y ffôn i'r adran hunan-gwblhau eu haddasu i wella'r broses bontio i'r ymatebydd.
- 2.6 Roedd gwersi allweddol hefyd yn gysylltiedig â sefydlu a phrofi'r sgript rhwng Verian a LIC, a gefnogodd welliannau i'r broses gymeradwyo ar gyfer rhifynnau o'r sgript yn y dyfodol.

3. Samplu

Dyluniad y sampl

- 3.1 Mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi'i fwriadu i gynrychioli'r holl oedolion 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Felly, defnyddiwyd hapsamplu tebygolrwydd, gyda'r tebygolrwydd o ddewis yn gymesur fwy neu lai â maint y boblogaeth ym mhob awdurdod lleol (gyda gorsamplu ym Mhowys ac yn yr awdurdodau lleol llai). Ar ôl cryn dipyn o ystyriaeth i'r ddwy ffrâm samplu, defnyddiwyd dull Ffeil Cyfeiriad Cod Post y Post Brenhinol (PAF) sy'n cynnwys eiddo preswyl ac unedau eiddo eraill nad ydynt yn bodoli mwyach/eto yn y ffrâm samplu.

Dewis cyfeiriadau

- 3.2 Fe greodd Verian 419 o feysydd gwaith maes daearyddol wahanol sydd, gyda'i gilydd, yn cwmpasu'r wlad gyfan. Ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol, mae cyfrif yr aelwydydd yn y Cyfrifiad yr un fath fwy neu lai ar gyfer pob ardal yn y gwaith maes, ond mae nifer cyfartalog yr aelwydydd fesul ardal yn y gwaith maes yn wahanol rhwng awdurdodau lleol (gan adlewyrchu'r ffracsiynau samplu gwahanol a gymhwyswyd ar lefel awdurdodau lleol).

Sypynnu a dyrannu samplau

- 3.3 Fe wnaeth Verian ddyrannu'r 419 o ardaloedd yn y gwaith maes yn systematig i bedwar chwarter y flwyddyn ac yna'n gyfartal i bob un o fisoedd y chwarter. Ar gyfer y gwaith maes prif gam fe ddyroddir yr arolwg i bob ardal yn y gwaith maes yn yr un mis bob blwyddyn a bydd y casgliad o ardaloedd y gwaith maes ym mhob mis yn is-set i'r 419 o ardaloedd a gyfansoddwyd ar hap.
- 3.4 Amserlennwyd y Prawf Maes fel bod y gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg yn cael ei ddyroddi i'r sampl rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023 ac roedd i fod i gynnwys 104 o'r 419 o ardaloedd yn y gwaith maes: 35 yr un ym mis Hydref a mis Tachwedd, a 34 ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, cwtogwyd yn sylweddol ar y Prawf Maes: fe'i dyroddwyd i bob un o'r 35 o ardaloedd gwaith maes mis Hydref ond dim ond i dri o ardaloedd mis Tachwedd ac ni chafodd ei ddyrannu i unrhyw un o ardaloedd gwaith maes mis Rhagfyr. At ddibenion gwerthuso, dim ond y rhai a

ddyroddwyd ym mis Hydref ddylid eu hystyried: 2,728 o gyfeiriadau wedi'u gwasgaru rhwng 35 o ardaloedd gwaith maes: cyfartaledd o 78 cyfeiriad yr ardal¹. Ym mhob ardal yn y gwaith maes, cafodd cyfeiriadau a samplwyd eu dyrannu'n systematig i ddyluniad casglu data dau-gam (cyfweld dros y ffôn i ddechrau, a chyfweld wyneb-yn-wyneb wedyn) gyda thebygolrwydd o 67% neu ddyluniad casglu data un-cam (cyfweld dros y ffôn yn unig) gyda thebygolrwydd o 33%. Ar y cyfan, dyrannwyd 1,827 o gyfeiriadau i'r dyluniad casglu data dau-gam tra bo'r 901 a oedd yn weddill wedi'u dyrannu i'r dyluniad casglu data un-cam. Aseiniwyd cyfwelwyr Verian i 26 o 35 ardal gwaith maes mis Hydref (2,049 o gyfeiriadau); aseiniwyd y naw a oedd yn weddill i gyfwelwyr Beaufort (679 o gyfeiriadau). Defnyddiwyd system o ddyrannu i asiantaeth ar sail tebygolrwydd i ddechrau. Er y cafwyd trafodaeth yn ddiweddarach am y posibilrwydd o ailddyrannu'r ddwy set o ardaloedd yn y gwaith maes, cytunodd y ddwy asiantaeth fod hyn yn ddiangen ar gyfer yr aseiniadau dan sylw.

Dewis unigolion

- 3.5 Anfonwyd llythyr rhag blaen at aelwydydd i ddechrau ac fe'u hanogwyd i ddarparu rhif ffôn a'u henw trwy wefan gofrestru bwrpasol i alluogi cyfwelwyr i gysylltu â hwy ar gyfer cyfweiliad. Wedyn anfonwyd llythyrau atgoffa, lle nad oedd aelwydydd wedi darparu eu manylion cyswllt.
- 3.6 Ochr yn ochr â hyn, cafodd y sampl ei thele-baru i helpu i gynyddu maint y niferoedd a oedd ar gael i gyfwelwyr ar gyfer camau cychwynnol y gwaith maes. Gwasanaeth masnachol yw tele-baru sy'n paru rhifau ffôn a chyfeiriadau preswyl. Ar y cyfan, cafodd ychydig dros chwarter y cyfeiriadau (26.8%; 730) eu tele-baru ag o leiaf un rhif ffôn.
- 3.7 Cafodd aelwydydd a ddyrannwyd i'r dyluniad casglu data dau-gam na wnaethant ddarparu rhif ffôn (neu nad oeddent yn cyfateb i rif wedi'i dele-baru) ymweliad gan gyfwelydd gyda golwg ar gwblhau'r arolwg yn y cartref. Er y gallai unigolion gymryd

¹ Sylwer: mae'r dadansoddiad o berfformiad ym Mhennod 5 yn seiliedig ar bob cyfres y dyroddwyd gwahoddiadau i gymryd rhan yn yr arolwg iddynt (2,950 o gyfeiriadau ar y cyfan) i fod yn gyson â'r canlyniadau data terfynol.

rhan yn yr arolwg dros y ffôn neu yn y cnawd, roedd y broses ddewis yn gyson beth bynnag oedd y dull.

- 3.8 Roedd y broses dewis unigolion yn golygu casglu enwau'r holl aelodau o'r aelwydydd a oedd yn 16+ oed yn ystod y cyswllt cychwynnol. Ar gyfer aelwydydd â dau oedolyn neu fwy, fe wnaeth y sgrïpt ddewis un unigolyn ar hap i gymryd rhan.
- 3.9 Er bod hyn yn cael ei esbonio yn y daflen a oedd yn cyd-fynd â'r llythyr rhag blaen, roedd dewis ar hap yn golygu mewn nifer o achosion nad y sawl a ddewiswyd oedd y sawl a ddarparodd ei fanylion trwy'r porth ar-lein i ddechrau. Er bod y sawl a ddewiswyd yn hapus i gael cyfweiliad fel arfer, roedd nifer fach o achosion lle'r oedd y sawl a oedd wedi optio i mewn yn wreiddiol yn siomedig i beidio â chael ei ddewis i gymryd rhan yn yr arolwg.

4. Cynnwys a datblygu'r holiadur

Trosolwg o'r holiadur

- 4.1 Roedd holiadur y Prawf Maes yn cynnwys 83 o fodiwlau. Roedd modiwlau cynnar yn cyflwyno'r arolwg, yn casglu gwybodaeth am yr aelwyd, yn dewis yr ymatebydd ac yn casglu gwybodaeth ddemograffig sylfaenol gan yr ymatebydd amdanynt hwy eu hunain a'u haelwyd. Roedd modiwlau wedi hynny'n cwmpasu ystod eang o feysydd pwnc: cyflogaeth ac addysg, cyllid, iechyd a lles, boddhad gyda gwasanaethau cyhoeddus, cyfranogiad mewn chwaraeon, yn y celfyddydau ac mewn diwylliant.
- 4.2 Ar y cyfan, gellir rhannu'r holiadur yn ddwy adran fras: y cwestiynau yn y brif adran gyntaf (CATI/ CAPI), a oedd wedi'u bwriadu i gael eu gofyn gan y cyfwelydd, ac yna ail adran hunan-gwblhau lai (CAWI/ CASI), sydd hefyd yn gallu cael ei chwblhau gyda chymorth cyfwelydd os oes angen.
- 4.3 Er nad oedd y rhan fwyaf o fodiwlau'n amrywio yn ôl dull, roedd nifer fach o fodiwlau'n cynnwys geiriad wedi'i deilwra gan ddibynnu ar y dull a dim ond i ddulliau penodol yr oedd rhai'n berthnasol, er enghraifft y modiwlau ailgysylltu a'r modiwlau a oedd yn cyflwyno ac yn cau'r adrannau hunan-gwblhau (CAWI/ CASI).

Cynnwys a datblygu'r holiadur

- 4.4 Ochr yn ochr â rhai addasiadau a chywiriadau i lwybro a geiriad, roedd holiadur y Prawf Maes yn cynnwys nifer fach o newidiadau i'r cynnwys o'i gymharu â'r peilot cychwynnol.
- 4.5 Er enghraifft, fe ychwanegwyd newidynnau newydd at y modiwlau ysgol gynradd ac ysgol uwchradd (PsWhich ac SsWhich). Roedd y newidynnau hyn yn gofyn pa ysgol yr oedd plentyn yr ymatebydd yn ei mynychu neu wedi ei mynychu'n fwyaf diweddar. Cafodd ffwythiant chwilio o ysgolion yng Nghymru ei fewnosod i'r sgript, a oedd yn galluogi cyfwelwyr i ddechrau teipio enw ysgol a fyddai'n cyfyngu ar y rhestr o ysgolion wrth i'r cyfwelydd deipio, neu fe allent fewnbynnu'r enw â llaw os nad oedd hwn ar y rhestr. Yn y peilot, gofynnwyd i ymatebwyr am deithio i'r ysgol yn unig, tra bo'r set o gwestiynau ar gyfer y Prawf Maes wedi'i hehangu i gynnwys, er enghraifft, ym mha grŵp blwyddyn yr oedd eu plentyn, a lefel eu boddhad/anfoddhad gyda'r ysgol.
- 4.6 Cyflwynwyd ffwythiant chwilio tebyg i'r cwestiwn ynglŷn ag afiechyd hirdymor (Disab-1-6aE). Roedd rhestr o afiechydon ar gael yn y sgript, y gallai cyfwelydd chwilio drwyddi (mireinio) yn seiliedig ar ateb yr ymatebydd. Eto, os nad oedd afiechydon wedi'u cynnwys ar y rhestr, gallai'r cyfwelydd eu hychwanegu fel ymateb digymell. Yn wahanol i'r Prawf Maes, roedd pob afiechyd ym mheilot mis Medi 2023 yn cael eu rhoi i mewn fel ymatebion testun agored.
- 4.7 Cafodd nifer o gwestiynau adborth ychwanegol eu hychwanegu at ddiwedd yr arolwg i gael dealltwriaeth well am brofiadau ymatebwyr o gymryd rhan yn yr arolwg; er enghraifft, pa mor rwydd neu anodd oedd yr arolwg yn eu tyb hwy, eu barn am hyd yr arolwg, a pha mor rwydd neu anodd oedd hi iddynt gymryd rhan yn yr arolwg a'i gwblhau.
- 4.8 Fe ychwanegwyd dau fodiwl newydd at y Prawf Maes hefyd – Sgiliau Rhyngrwyd a Gweithio o Bell – tra bo Llety Addas i'ch Anghenion wedi cael ei dynnu allan.

Rhaglennu a phrofi'r holiadur

- 4.9 Fe sgriptiwyd yr arolwg yn Forsta+ (Confirmit gynt). Roedd modd profi newidynnau unigol i ddechrau gan ddefnyddio dolen brofi Forsta, a oedd yn galluogi profwyr i 'neidio' at y newidyn a ddymunid heb orfod gweithio drwy'r sgript gyfan. Unwaith yr oedd y tîm sgriptio wedi gweithredu newid, a bod ansawdd hwn wedi cael ei sicrhau yn fewnol, roedd y tîm ymchwil yn gallu profi'r sgript, cyn rhannu hon gyda LIC ar gyfer gwiriadau dilysu pellach.
- 4.10 Fe wnaed gwaith profi mwy trylwyr gan ddefnyddio amgylcheddau CATI a CAPI Forsta+, lle gallai profwyr weithio'u ffordd drwy'r sgript o un pen i'r llall. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl cynnal profion manwl ar nodweddion sgriptio megis llwybro a llenwi â thestun, a allai amrywio fesul ymatebydd unigol. Fe sicrhodd y tîm ymchwil eu bod yn efelychu'r ystod lawn o senarios a allai ddigwydd yn ystod gwaith maes.
- 4.11 Ochr yn ochr â hyn, fe ddatblygwyd gwefan i weithredu fel porth cofrestru ar-lein hefyd yn Forsta+. Defnyddiwyd y porth i gasglu'r manylion cyswllt cychwynnol gan aelwydydd a oedd wedi optio i mewn, gyda gwybodaeth gyswllt ar gael i'r cyfwelwyr wedyn i amserlennu cyfweliadau ac yn cael ei defnyddio i boblogi meysydd perthnasol yn nhabl y sampl ar ddechrau'r sgript (rhif ffôn ac enw).

Cyfieithiad Cymraeg

- 4.12 Gan bod ymatebwyr yn gallu cymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn Gymraeg neu yn Saesneg, cafodd cyfieithiad Cymraeg o'r holiadur ei ddatblygu a'i rannu gan Lywodraeth Cymru. Verian oedd yn gyfrifol am y cyfieithiad o sgript y porth (mewn partneriaeth gyda Beaufort).
- 4.13 Yn y naill achos a'r llall, rhoddwyd y cyfieithiad ar waith ar ffurf troshaen, a oedd i bob pwrpas yn gosod copi o'r sgript Gymraeg yn y sgript Saesneg, gyda'r holl nodweddion codio a rhaglennu eraill yr un fath yn union.
- 4.14 Cafodd yr holl ddeunyddiau gwybodaeth i aelwydydd ac ymatebwyr eu cynhyrchu a'u dosbarthu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Amseriadau'r cyfweiliadau

- 4.15 Yn seiliedig ar rifynnau blaenorol o'r arolwg amcangyfrifwyd y byddai adran gyntaf yr arolwg yn cymryd oddeutu 30 munud i'w chwblhau yn CATI, gan ddisgwyl y byddai'r adran ar-lein ddilynol yn cymryd hyd at 15 munud. Roedd disgwyl i'r cyfweiliad yn y cartref gymryd 45 munud ar y cyfan, gyda 30 munud yn adran a weinyddir gan gyfwelydd ac oddeutu 15 munud wedi'u haseinio i adran CASI yr arolwg
- 4.16 Ar draws y ddau ddull fe arweiniodd hyn at ddisgwyliad ar y cyfan y byddai'r adran dan arweiniad cyfwelydd yn para 37 munud ar gyfartaledd.
- 4.17 Cynhwyswyd stampiau amser ar gyfer yr holl gwestiynau i'w gwneud yn bosibl cael dealltwriaeth ronnynog am yr amser a gymerwyd ar gyfer pob cwestiwn fesul dull.
- 4.18 Roedd yr adborth cychwynnol gan gyfwelwyr yn dynodi bod arolwg y Prawf Maes yn rhedeg am yn hwy na'r amcangyfrif gwreiddiol (er y byddai amseroedd cyfweiliadau'n gwella wrth i gyfwelwyr ymgyswrtu'n fwy â'r arolwg) ac fe wnaeth y data cychwynnol ar amseriadau o'r Prawf Maes atgyfnerthu'r pryder hwn. Gyda hyn mewn cof, fe gyflwynwyd is-samplu ychwanegol i mewn i'r arolwg ar 18 Rhagfyr 2023 i helpu i leihau hyd y cyfweiliad ar gyfer gweddill y Prawf Maes.
- 4.19 Fodd bynnag, roedd yr hyd canolrifol ar y cyfan yn dal i fod yn fwy ar draws y ddau ddull, yn arbennig CATI, ac fe drafodir hyn mewn mwy o fanylder yn Adran 7.10.

Ffractsiynau is-samplu

- 4.20 Mae is-samplu'n berthnasol i nifer o fodiwlau, neu grwpiau o fodiwlau, yn yr holiadur. Proses awtomatig wedi'i sefydlu yn y sgript yw hon, sy'n pennu i bwy y mae modiwlau'n cael eu gofyn yn seiliedig ar reolau rhagddiffiniedig. Cafodd peth is-samplu o fersiwn beilot yr holiadur eu trosglwyddo i'r Prawf Maes. Er enghraifft, gofynnwyd y fersiynau byr a hwy o fodiwlau Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Caeredin ill dwy i ddetholiad ar hap o 50% o ymatebwyr yn unig, felly byddai naill ai'r fersiwn fer neu'r fersiwn hir o'r cwestiynau'n cael ei gofyn i ymatebwyr.
- 4.21 Yn yr un modd, cafodd y modiwl Sgiliau Rhyngrwyd newydd ei is-samplu yn ôl sampl ar hap o 50% o'r ymatebwyr, a oedd eisoes wedi ateb eu bod hwy'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y modiwl blaenorol.

- 4.22 Ar gyfer modiwlau eraill, cafodd rhesymeg is-samplu'r peilot gwreiddiol ei diweddarau ar gyfer y Prawf Maes. Er enghraifft, yn y peilot fe gymhwyswyd cymhareb o 99%: 1% i'r is-sampl iechyd personol, lle gofynnwyd y modiwlau Beichiog, BMI, Diet, Alcohol, Ysmygu a defnyddio e-sigarennau a Gweithgarwch Corfforol i bron pob ymatebydd. Fodd bynnag, dim ond i 50% o'r cyfranogwyr yn y Prawf Maes y gofynnwyd y rhain. Ar ben hynny, cafodd yr elfen is-samplu a ddefnyddiwyd yn y peilot ar gyfer y modiwlau Boddhad gyda gwasanaethau iechyd, system addysg, a Llywodraeth Cymru ei thynnu allan, a gofynnwyd y tri modiwl hyn i bob ymatebydd yn y Prawf Maes.
- 4.23 Er bod y rhan fwyaf o'r is-samplu wedi cael ei sefydlu cyn dechrau'r gwaith maes, fel a nodir uchod, fe gyflwynwyd peth is-samplu ychwanegol yn ystod y gwaith maes, i wrthweithio pryderon ynghylch hyd yr arolwg ar y cyfan.

5. Gwaith maes

Recriwtio cyfwelwyr

- 5.1 Dechreuwyd recriwtio dri mis cyn bod y Prawf Maes i fod i ddechrau yn ôl yr amserlen. Cafodd y ddwy asiantaeth eu cyflenwi â'r pwyntiau i'w cynnwys rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr. Cafodd yr wybodaeth hon ei throshaenu â nifer y cyfwelwyr Cymraeg a oedd eisoes ar y priod baneli, gan baru codau post cartrefi'r cyfwelwyr â chodau post pwyntiau'r sampl, gan hefyd ystyried llwythi gwaith presennol. Roedd yr wybodaeth hon yn amlygu capasiti presennol (cyfredol) ac yn galluogi'r asiantaethau i gadarnhau ble yr oedd angen cyfrif pennau ychwanegol. Cafodd cynnydd ei fonitro'n wythnosol, gyda chymorth ychwanegol lle'r oedd cynnydd yn is na'r lefelau disgwylidig.

Briffio'r cyfwelwyr

- 5.2 Cafodd sesiynau briffio eu rhannu ar draws nifer o ddiwrnodau, gyda phob cyfwelydd yn bresennol mewn sesiwn friffio gyflwyniadol ar MS Teams, a sesiwn friffio wyneb-yn-wyneb am ddiwrnod cyfan wedi hynny. Ar ôl hyn, gofynnwyd i gyfwelwyr gynnal nifer o gyfweiliadau ymarfer cyn bod yn bresennol mewn sesiwn derfynol (ar MS Teams) i ymdrin ag unrhyw ymholiadau a oedd ganddynt o hyd.

- 5.3 Cafodd lleoliadau briffio ar gyfer y sesiynau wyneb-yn-wyneb eu dewis yn seiliedig ar yr aseiniadau a ddewiswyd a lleoliad cyfwelwyr, gyda thair sesiwn friffio'n digwydd yng Nghaerdydd ac un sesiwn friffio'n digwydd yn Wrecsam, i gyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 29 Tachwedd.

Goruchwyllo a rheoli ansawdd

- 5.4 Yn draddodiadol, mae isafswm o 10% o'r holl gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb (CAPI) a gynhelir yn cael eu dilysu yn unol â safonau'r diwydiant. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, caiff y prosesau ôl-wirio ar gyfer cyfwelwyr wyneb-yn-wyneb eu cymhwyso ar gyfer cyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb.
- 5.5 Cyflawnir y gweithgarwch dilysu dros y ffôn gan ddilyswyr hyfforddedig. Lle y bo'n bosibl, gwneir ôl-wiriadau o fewn pythefnos i gynnal y cyfweiliad. Os nad yw'n bosibl cysylltu â'r ymatebydd dros y ffôn, rhoddir cynnig ar gysylltu â hwy drwy'r post neu yn y cnawd. Mae ôl-wiriadau'n cynnwys ail-ofyn cwestiynau o wahanol rannau o'r cyfweiliad i wirio atebion a gofyn cwestiynau ynglŷn â sut y gwnaeth y cyfwelydd weinyddu'r arolwg i sicrhau bod gweithdrefnau wedi cael eu dilyn yn gywir.
- 5.6 Os yw gweithgarwch dilysu'n adnabod unrhyw faterion o ran perfformiad, adolygir y rhain ac ymdrinnir â hwy gyda'r cyfwelydd. Y cam cyntaf yw ymchwilio'n drylwyr i'r mater a hynny'n ddiragfarn, gan gofio difrifoldeb y mater. Mae'r holl benderfyniadau'n cael eu hadolygu gan yr Adran Ansawdd a chan Reolwyr y Cyfwelwyr, cyn cael eu cymeradwyo gan yr Uwch Reolwyr. Cynigir hyfforddiant a chymorth ychwanegol os oes angen a gwneir gwaith pellach i fonitro gwaith y cyfwelydd.

Dyddiadau, rheoli, a gweithdrefnau'r gwaith maes

- 5.7 Dechreuodd gwaith maes ar 5 Rhagfyr ac fe barodd tan 7 Ionawr (gan gynnwys y dyddiad hwnnw). Fe ganolbwyntiodd yr ychydig wythnosau cyntaf yn bennaf ar y rhan ffôn (CATI), gyda chyfweiliadau yn y cartref yn dechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau 18 Rhagfyr 2023.

- 5.8 Defnyddiwyd system rheoli dyddiadur i dracio'r diwrnodau y cytunwyd arnynt, a hwnnw'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gan Dîm y Prosiect Maes, gydag unrhyw ddiwrnodau a gollwyd oherwydd salwch ac ati yn cael eu hail-drefnu ar y system.
- 5.9 Fe wnaeth y Prawf Maes ein galluogi i sefydlu a mireinio'r broses ar gyfer rheoli'r sampl fel y'i gweithiwyd ar draws CATI a CAPI. Er mwyn i'r gwaith maes CAPI fod yn effeithiol roedd rhaid i Gyfwelwyr dreulio mwy o amser yn y fan a'r lle mewn un sesiwn i sicrhau bod y gyfradd gwblhau'n cael ei chyflawni. Roedd hyn yn rhoi mwy o amser i'r cyfwelydd weithio'u sampl CAPI. Yn yr un modd, yr amser gorau posibl i gwblhau cyfweiliadau CAPI oedd rhwng 4pm ac 8pm, tra bo ystod fwy o amseroedd yn ystod y dydd i gysylltu ar gyfer CATI.
- 5.10 Roedd llythyr yn cael ei anfon i gyfeiriadau a samplwyd yn eu gwahodd i gymryd rhan. Os oedd diddordeb ganddynt, roedd ymatebwyr posibl yn cael eu hysgogi i gofrestru eu diddordeb mewn cyfranogi naill ai ar-lein neu dros y ffôn. Roedd hyn yn mynd â hwy at wefan [dolen <https://www.llyw.cymru/arolwgcymru>] ac yna ymlaen at y porth. Roedd y dudalen hon yn cynnwys dolên i gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg hefyd.

Dogfennau'r gwaith maes

- 5.11 Cafodd y llythyrau gwahodd cychwynnol, ynghyd â thaflen wybodaeth, eu hanfon ar 27 Tachwedd, gyda'r llythyrau atgoffa'n cael eu hanfon ar 6 Rhagfyr. Nid anfonwyd unrhyw negeseuon atgoffa eraill tan yr wythnos yn dechrau 1 Ionawr pan anfonwyd negeseuon e-bost atgoffa ar dri achlysur ar wahân at y rhai a oedd wedi cwblhau'r CATI ond nad oeddent wedi cwblhau cam CAWI (hunan-gwblhau) y cyfweiliad (3, 5 ac 8 Ionawr) eto.
- 5.12 Darparwyd pecyn gwaith maes cyfwelydd ar gyfer cyfwelwyr a hwnnw'n cynnwys y sleidiau o'r sesiynau briffio, dogfen gyfarwyddyd ar gyfer cyfwelwyr, dogfen gyfarwyddyd ynghylch yr holiadur a mapiau gwaith maes. Ochr yn ochr â hyn rhoddwyd deunyddiau iddynt y gellid eu defnyddio ar garreg y drws neu yn ystod y cyfweiliad CAPI. Roedd y rhain yn cynnwys copi wedi'i lamineiddio o'r llythyr gwahodd, y daflen a'r llythyr atgoffa a anfonwyd at aelwydydd rhag blaen, a deunyddiau ychwanegol megis cardiau apwyntiadau a ffeithlun cysylltu data gyda

thestun i gyd-fynd ag ef. Dangosir copi llawn o'r holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn yr atodiad (Adran 8).

Cyfweliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill

- 5.13 Gofynnwyd i gyfranogwyr a hoffent gwblhau'r arolwg yn Gymraeg ynteu yn Saesneg, ynteu mewn iaith arall, gyda'r holl gyfweliadau Cymraeg yn cael eu cynnal gan gyfwelwyr Cymraeg.
- 5.14 Er bod yr arolwg wedi cael ei gynnig yn Gymraeg o'r dechrau un, dim ond dau gais a gafwyd am gyfweliadau Cymraeg yn y Prawf Maes ac ni ofynnwyd am gyfweliadau mewn unrhyw iaith arall.
- 5.15 Pe bai rhywun wedi gofyn am iaith arall, byddai'r cyfwelwyr wedi gofyn i'r cyfranogwyr a oedd angen cyfieithydd allanol, ynteu a allai rhywun yr oedd yr ymatebydd yn ei adnabod gyfieithu'r arolwg ar eu rhan (er enghraifft, aelod arall o'r aelwyd neu ffrind).

Cyfweliadau â chymorth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb

- 5.16 Gofynnwyd i'r cyfwelwyr wirio hefyd a oedd ar y cyfranogwr angen help gan rywun arall (er enghraifft, aelod arall o'r aelwyd neu ffrind) i gwblhau'r cyfweliad oherwydd, er enghraifft, anhawster gyda'u lleferydd neu eu clyw.
- 5.17 Lle'r oedd angen cymorth, gallai'r cyfwelydd barhau â'r cyfweliad os oedd y sawl a fyddai'n rhoi cymorth ar gael ar adeg yr ymweliad cychwynnol neu fe allai drefnu apwyntiad diweddarach os nad oedd yr unigolyn dan sylw ar gael. Dynododd pedwar allan o'r 219 o gyfranogwyr y byddai angen help arnynt i gwblhau'r arolwg pan ofynnwyd y cwestiwn ynghylch cyfweliad â chymorth.

Proses o gysylltu mewn cyfeiriad yn y sampl

- 5.18 Roedd y broses gychwynnol ar gyfer cysylltu ag aelwydydd yn amrywio gan ddibynnu a oedd yr aelwyd wedi darparu rhif ffôn a/ neu a oedd yr aelwyd wedi cael ei hadnabod fel un â 'phariad' ffôn posibl yn ystod yr ymarfer tele-baru cychwynnol (gweler Adran 3 am ragor o fanylion).

- 5.19 Dychmygwyd yn wreiddiol y byddai cyfwelwyr yn cael mynediad i ddechrau at y rhifau optio-i-mewn yn unig ar gyfer pythefnos cyntaf y gwaith maes, gyda'r rhifau tele-baru ar gael ar ôl cwblhau'r pythefnos cyntaf o gyfweiliadau dros y ffôn. Fodd bynnag, yn sgîl cywasgu'r gwaith maes (o oddeutu 12 wythnos i oddeutu 5 wythnos), fe benderfynwyd y byddai'r rhifau tele-baru ar gael ar ddiwedd wythnos gyntaf y gwaith maes CATI i alluogi ffenestr fechan o waith maes tele-baru i ddechrau cyn i'r rhan yn y cartref (CAPI) ddechrau.
- 5.20 Lle nad oedd rhif optio-i-mewn wedi cael ei ddarparu (a bod y cyfeiriad heb gael ei dele-baru) fe roddwyd cynnig ar gysylltu ar garreg y drws i ddechrau ar gyfer cyfeiriadau a ddyrannwyd i'r dyluniad dau-gam. Roedd cyfwelwyr yn gallu defnyddio copi o'r llythyr rhag blaen a'r daflen fel deunydd cynorthwyol pe na bai'r aelod o'r aelwyd yn cofio cael y llythyr(au) cychwynnol.
- 5.21 Roedd y sgriptiau cyflwyno wedi'u teilwra i adlewyrchu'r manau cyswllt gwahanol (pa un a oedd y cyswllt cychwynnol dros y ffôn ynteu yn y cnawd), gyda thestun ychwanegol yn cael ei ddarparu i gyfwelwyr ar gyfer y rhai y cysylltwyd â hwy trwy dele-baru i helpu i egluro sut y casglwyd eu rhif.

Arolwg ar-lein

- 5.22 Ar ddiwedd y cyfweiliad ffôn, gofynnwyd i unrhyw un a oedd wedi cadarnhau'n flaenorol eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd (IntPerUse) neu fod ganddynt ddyfais a oedd yn cysylltu â'r rhyngrwyd (IntPersUseCheck) gwblhau'r adran ar-lein ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt hwy.
- 5.23 Lle nad oedd cyfranogwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd, lle nad oedd ganddynt ddyfais a oedd wedi'i chysylltu â'r rhyngrwyd, neu lle nad oeddent yn gallu cwblhau'r adran hunan-gwblhau eu hunain, roedd cyfwelwyr yn gallu cwblhau'r adran ar-lein ar eu rhan, naill ai ar yr un alwad neu yn ddiweddarach.
- 5.24 Roedd yr holl gyfranogwyr yn gallu gwrthod yr adran ar-lein, er eu bod yn cael eu hatgoffa y byddai gwneud hynny'n golygu na fyddent yn gymwys i gael y daleb a oedd yn cael ei chynnig fel cymhelliad.

Deilliannau'r sampl

- 5.25 Ar ddiwedd y gwaith maes cafodd yr amryw ddeilliannau cysylltu eu dadansoddi i adnabod deilliant terfynol ar gyfer pob cyfeiriad. Er mai deilliant y cyswllt terfynol oedd y deilliant terfynol yn aml, er enghraifft bod yr arolwg wedi cael ei gwblhau, nid felly yr oedd hi bob amser. Er enghraifft, os oedd y cyswllt cychwynnol yn cynnwys cwblhau cyfweliad rhannol, ond bod galwadau/ ymweliadau dilynol wedi esgor ar 'ddim ymateb' yna roedd y deilliant terfynol yn seiliedig ar y mwyaf llwyddiannus o'r cysylltiadau, yn yr achos hwn, y cyfweliad rhannol gwreiddiol.
- 5.26 Roedd y gyfradd ymateb ar y cyfan ar gyfer y sampl yn 7.8% ar gyfer adran gyntaf yr arolwg (ac yn 7.4% ar y cyfan). Fe wnaeth 95% o'r ymatebwyr a gwblhaodd gyfweliadau gwblhau'r ail adran yn llawn hefyd. Ceir crynodeb o'r deilliannau terfynol ar gyfer y sampl ddyroddedig isod.

Tabl 1: Crynodeb o'r deilliannau terfynol

Ffigur 5.1	n	% o'r cyfeiriadau dyroddedig	% o'r cyfeiriadau dyroddedig cymwys
Cyfanswm cyfeiriadau dyroddedig	2,950		
Ddim yn bodoli mwyach/eto	144	4.9%	
Cyfanswm y cyfeiriadau cymwys	2806	95.1%	100.0%
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	230	7.8%	8.2%
Wedi'u cwblhau'n llawn (gan gynnwys ail gam)	219	7.4%	7.8%
Wedi'u cwblhau'n rhannol*	11	0.4%	0.4%
CATI wedi'u cwblhau	166	5.6%	5.9%
CAPI wedi'u cwblhau	53	1.8%	1.9%
Dim cyswllt	477	16.2%	17.0%

Gwrthodiad	307	10.4%	10.9%
Anghynhyrchiol	383	13.0%	13.6%
Heb eu cynnwys	1,409	47.8%	50.2%

* Mae Wedi'u cwblhau'n rhannol yn cynnwys 4 a gwblhaodd y cam cyntaf yn llawn (ond nid yr ail gam) a 7 a gwblhaodd ran yn unig o gam cyntaf y cyfweiliad.

5.27 Ceir crynodeb o'r deilliannau terfynol wedi'u gwahanu yn ôl cyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb isod yn ffigyrau 5.2 i 5.5.

Cyfweiliadau dros y ffôn a gyflawnwyd

5.28 Ceir crynodeb o'r sampl optio-i-mewn isod (ffigur 5.2), gyda thabl sy'n canolbwyntio ar y sampl tele-baru'n cael ei ddangos yn uniongyrchol oddi tano (ffigur 5.3).

5.29 Yn y ddau dabl, mae dim cyswllt wedi'i rannu rhwng y rhai lle nad oedd cyswllt ond bod o leiaf un ymgais wedi cael ei wneud i alw a diffyg cyswllt lle na wnaed unrhyw alwadau cyn diwedd y gwaith maes.

5.30 Roedd y gyfradd ymateb ymhlith y rhai a wnaeth optio i mewn yn 34% yn seiliedig ar yr holl gyfeiriadau cymwys (wedi'u cwblhau'n llawn) ond dim ond 3% ydoedd ar gyfer y sampl tele-baru.

5.31 Roedd gwrthodiadau'n 24% ar gyfer y sampl tele-baru (ymhlith cyfeiriadau cymwys), ond yn 12% ar gyfer y sampl optio-i-mewn. Er bod yr ail yn llawer is, mae'n bwysig cofio eu bod wedi optio i mewn i ddechrau, ond yn dal wedi gwrthod pan gysylltwyd â hwy. Ysgogwyd hyn yn bennaf gan y ffaith bod rhywun arall yn yr aelwyd wedi cael ei ddewis i gymryd rhan (heblaw am y sawl a wnaeth optio i mewn), ond roedd tystiolaeth anecdotaidd hefyd bod amseriad y gwaith maes – dros gyfnod y Nadolig – wedi cyfrannu at gyfradd wrthod uwch-na'r-disgwyl ar gyfer y rhai a oedd wedi optio i mewn.

Tabl 2: Crynodeb o'r sampl optio-i-mewn

Ffigur 5.2	n	% o'r cyfeiriadau optio-i-mewn	% o'r cyfeiriadau optio-i-mewn cymwys
Cyfanswm a wnaeth optio i mewn	470		
Ddim yn bodoli mwyach/eto	18	4	
Cyfanswm y niferoedd cymwys	452	96	100
Dim cyswllt	162	34	36
Dim cyswllt – ond wedi galw	135	29	30
Dim cyswllt – heb alw	27	6	6
Gwrthodiad	54	12	12
Trosglwyddiad i CAPI	1	0.2	0.2
Anghynhyrchiol	74	16	16
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	161	34	36
Wedi cwblhau'n llawn (g.g. ail gam)	153	33	34
Wedi cwblhau'n rhannol*	8	2	2

* Mae Wedi cwblhau'n rhannol yn cynnwys 3 a gwblhaodd y cam cyntaf yn llawn (ond nid yr ail gam) a 5 a gwblhaodd ran yn unig o gam cyntaf y cyfweliad.

5.32 Roedd nifer absoliwt y rhai a wnaeth optio i mewn a'r gyfradd ymateb ymhlith y rhai a wnaeth optio i mewn yn is na'r disgwyl – adnabuwyd sawl damcaniaeth ar gyfer hyn ac fe drafodir y rhain mewn mwy o fanylder yn adran 7.

Tabl 3: Sampl tele-baru

Ffigur 5.3	n	% o'r cyfeiriadau tele-baru	% o'r cyfeiriadau tele-baru cymwys
Cyfanswm sampl tele-baru	662		
Ddim yn bodoli mwyach/eto	99	15	
Cyfanswm y niferoedd cymwys	563	85	100
Dim cyswllt	379	57	67
Dim cyswllt – ond wedi galw	309	47	55
Dim cyswllt – heb alw	70	11	12
Gwrthodiad	133	20	24
Trosglwyddiad i CAPI	2	0.3	0.4
Anghynhyrchiol	34	5	6
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	15	2	3
Wedi cwblhau'n llawn (g.g. ail gam)	13	2	3
Wedi cwblhau'n rhannol*	2	0.3	0.4

* Fe wnaeth y ddau Wedi cwblhau'n rhannol gwblhau'r cam cyntaf yn llawn (ond nid yr ail gam).

Cyfweliadau wyneb-yn-wyneb a gyflawnwyd

- 5.33 Ceir crynodeb o'r sampl wyneb-yn-wyneb isod (ffigur 5.4).
- 5.34 Mae'n bwysig nodi bod y sampl wyneb-yn-wyneb wedi'i bwriadu i gael ei gweithio dros gyfnod o 8-9 wythnos, ond mai oddeutu 2 wythnos oedd y ffenestr derfynol ar gyfer y gwaith maes gyda llawer o hyn yn rhedeg dros gyfnod y Nadolig. O ganlyniad, ni chysylltwyd o gwbl â chyfran uchel o'r cyfeiriadau yn ystod y ffenestr a

oedd wedi'i lleihau ar gyfer y gwaith maes. Gyda hyn mewn cof ceir dau rifyn o'r tabl – y naill yn seiliedig ar yr holl aelwydydd (ffigur 5.4) a'r llall yn seiliedig ar yr aelwydydd y cysylltwyd â hwy mewn gwirionedd fel rhan o ffenestr y gwaith maes wyneb-yn-wyneb (ffigur 5.5).

- 5.35 3% oedd y gyfradd ymateb ymhlith yr holl aelwydydd wyneb-yn-wyneb ond roedd yn codi i 10% pan oedd yn cynnwys dim ond aelwydydd y cysylltwyd â hwy o leiaf unwaith.

Tabl 4: Crynodeb o'r sampl wyneb-yn-wyneb

Ffigur 5.4	n	% o'r cyfeiriadau WyW	% o'r cyfeiriadau WyW cymwys
Cyfanswm yr aelwydydd wyneb yn wyneb (WyW)*	1,644		
Ddim yn bodoli mwyach/eto	39	2	
Cyfanswm y niferoedd cymwys	1,605	98	100
Dim cyswllt	1,150	70	72
Dim cyswllt – ond wedi galw	88	5	5
Dim cyswllt – heb alw	1,062	65	66
Gwrthodiad	121	7	8
Anghynhyrchiol	281	17	18
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	53	3	3

Tabl 5: Crynodeb o'r sampl wyneb-yn-wyneb

Ffigur 5.5	n	% o'r cyfeiriadau WyW	% o'r cyfeiriadau WyW cymwys
Cyfanswm yr aelwydydd wyneb yn wyneb (WyW)*	582		
Ddim yn bodoli mwyach/eto	39	7	
Cyfanswm y niferoedd cymwys	543	93	100
Dim cyswllt – heb ymweld	88	15	16
Gwrthodiad	121	21	22
Anghynhyrchiol	281	48	52
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	53	9	10

* Mae Aelwydydd WyW yn golygu aelwydydd a ddyrannwyd i'r dyluniad dau-gam, heb rif ffôn ar gael

Arolygon ar-lein a gyflawnwyd

- 5.36 Gofynnwyd i 173 o ymatebwyr dros y ffôn gyfranogi yn yr adran hunan-gwblhau². O'r rhain, fe wnaeth 140 (81%) ei chwblhau eu hunain ar-lein cyn diwedd cyfnod y gwaith maes, ac fe wnaeth 24 (14%) arall ei chwblhau dros y ffôn gyda'r cwestiynau'n cael eu gweinyddu gan y cyfwelydd. Fe gytunodd pedwar ymatebydd i'w chwblhau ar-lein ond a hwythau heb wneud hynny o fewn y terfyn amser, ac fe ddechreuodd un ymatebydd gyda'r cyfwelydd dros y ffôn ond a hwythau heb ei gorffen. Fe wnaeth y pedwar ymatebydd a oedd yn weddill wrthod yr adran hunan-gwblhau yn llwyr.

² Fe roddodd 3 chyfranogwr y gorau iddi cyn diwedd y CATI ac felly ni ofynnwyd iddynt gymryd rhan yn yr adran hunan-gwblhau.

Tabl 6: Crynodeb o'r sampl-ar-lein

Ffigur 5.6	n	% o'r rhai a oedd yn gymwys
Cyfanswm a oedd yn gymwys ar gyfer yr adran hunan-gwblhau	173	
Wedi derbyn yr adran hunan-gwblhau	144	83
Wedi ei chwblhau	140	81
Heb ei chwblhau	4	2
Wedi ei gweinyddu gan gyfwelydd	25	14
Wedi ei chwblhau	24	14
Heb ei chwblhau	1	1
Wedi gwrthod	4	2
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	164	95

Arolygon CASI a gyflawnwyd

- 5.37 Ar y cyfan, cafodd 53 o ymatebwyr gyfweliadau yn y cartref a chais i gyfranogi yn yr adran hunan-gwblhau trwy CASI. O'r rhain, fe wnaeth 40 dderbyn yr adran hunan-gwblhau pan gyflwynwyd y llechen iddynt (75%) gyda phob un yn ei chwblhau. Cafodd 13 arall eu gweinyddu gan y cyfwelydd (25%), gyda phawb eto'n cwblhau'r adran yn llawn, a dim gwrthodiadau llwyr.

Tabl 7: Crynodeb o'r sampl CASI

Ffigur 5.7	n	% o'r rhai a oedd yn gymwys
Cyfanswm a oedd yn gymwys ar gyfer yr adran hunan-gwblhau	53 ³	
Wedi derbyn yr adran hunan-gwblhau	40	75
Wedi ei chwblhau	40	75
Heb ei chwblhau	0	
Wedi ei gweinyddu gan gyfwelydd	13	25
Wedi ei chwblhau	13	25
Heb ei chwblhau	0	0
Wedi gwrthod	0	0
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	53	100

6. Prosesu ac allbwn data

Codio a golygu data

- 6.1 Fel a amlinellir yn Adran 4.5, fe wnaeth nifer fach o fodiwlau ddefnyddio ffrâm cod chwiliadwy i roi cymorth i gwblhau cwestiynau penodol (PsWhich, SsWhich Disab-1-6aE), ond roedd y mwyafrif o'r codio'n golygu bod codwyr wedi edrych ar yr holl gwestiynau lle'r oedd 'arall – rhwch fanylion' wedi cael ei roi fel ateb.
- 6.2 Nod yr ymarfer hwn, a adwaenir yn gyffredin fel ôl-godio, yw gweld a yw'r ateb a roddwyd yn gallu cael ei godio gan ddefnyddio un o'r opsiynau ymateb gwreiddiol a godwyd ymlaen llaw. Gwneir y codio hwn yn Ascribe, pecyn codio sy'n seiliedig ar Windows.

³ Rhannol wedi stopio cyn cyrraedd yr adran hunan-gwblhau

- 6.3 Ochr yn ochr â'r codio, fe adolygwyd y data yn unol â'r fanyleb data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y canlyniad yn gyson â'r disgwyliadau. Darparwyd ffeil gychwynnol o'r 134 o achosion cyntaf ar gyfer LIC a adolygodd hon ar y cyd â Verian.
- 6.4 Er bod nifer fach o olygiadau wedi cael eu hadnabod a'u diweddarau, ni wnaeth yr adolygiad cychwynnol o'r data adnabod unrhyw broblemau gyda'r sgript ei hun.

Newidynnau deilliadol

- 6.5 Fel rhan o gyflawni'r Prawf Maes, fe gynhwyswyd cyfres o newidynnau deilliadol i'w gwneud yn bosibl cymharu â blynyddoedd blaenorol. Pennwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru.

Allbynnau data

- 6.6 Prif allbynnau'r Prawf Maes oedd ffeiliau SPSS, gyda nifer o ffeiliau wedi'u cyflwyno:
- (a) Set ddata ymatebwyr
 - (b) Set ddata aelwydydd
 - (c) Setiau data'r sampl
- 6.7 Gan bod y Prawf Maes wedi cael ei leihau, cytunwyd na fyddai'r data'n cael ei bwysoli o gwbl.

7. Canfyddiadau ac argymhellion

Cyfradd ymateb a chyfansoddiad y sampl

- 7.1 Roedd nifer y cyfweiliadau a gwblhawyd ar y cyfan a'r cyfraddau ymateb cysylltiedig ar gyfer y ddau ddull yn amlwg yn is na'r hyn a dargedwyd i ddechrau. Ar y cyfan, roedd y gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg llawn yn 7.4% (219/2950) er bod y dyluniad a'r cwtogiad ar gyfnod y gwaith maes yn golygu na ellir cymharu hyn â blwyddyn arolwg safonol. Yn yr un modd, roedd y nifer a wnaeth optio i mewn (16%) a'r gyfradd ymateb ymhlith y rhai a wnaeth optio i mewn (34%) yn amlwg yn is na'r hyn a ddisgwyliid ar y dechrau. O'r 2,950 yr anfonwyd gwahoddiadau atynt dim ond 470^[1] o aelwydydd a optiodd i mewn i'r arolwg – 15.9% o'r aelwydydd y cysylltwyd â hwy. Fe wnaeth cofrestriadau ar y porth redeg o 29 Tachwedd tan 8 Ionawr gyda dadansoddiadau wythnosol wedi'u dangos yn ffigur 5.8 isod:

Tabl 8: Cofrestriadau ar y porth fesul wythnos

Ffigur 5.8	Cyfanswm wythnosol		Cyfanswm ar y cyfan	
Wythnos	(n)	%	(n)	%
1	204	43.4%	204	43.4%
2	102	21.7%	306	65.1%
3	119	25.3%	425	90.4%
4	32	6.8%	457	97.2%
5	7	1.5%	464	98.7%
6	4	0.9%	468	99.6%
7	2	0.4%	470	100%

^[1] Mae'r nifer hwn ychydig yn is na'r adroddiadau ar y gwaith maes gan bod nifer fach o achosion heb rif ffôn wedi cael eu dosbarthu fel rhai a oedd wedi optio i mewn.

- 7.2 O ganlyniad i'r llythyr cychwynnol fe wnaeth oddeutu 65.5% optio i mewn, gyda'r llythyr atgoffa (yn seiliedig ar 10 Rhagfyr) yn ysgogi 34.5% arall i gofrestru.

Adborth cyfwelwyr

- 7.3 Coladwyd adborth cyfwelwyr yn ystod ac ar ôl y Prawf Maes trwy arolwg ar-lein dienw ac fe'i casglwyd hefyd fel rhan o ôl-drafodaeth ar-lein (Microsoft Teams) a gynhaliwyd ychydig ddiwrnodau wedi i'r gwaith maes gael ei ddirwyn i ben.
- 7.4 Fe awgrymwyd nifer o newidiadau i'r sgript ond yn y mwyafrif o achosion roedd y newidiadau'n ymwneud â geiriad cwestiynau sefydledig neu drefn modiwlau sefydledig. Fodd bynnag, cafodd rhai gwelliannau eu hadnabod a'u cyflwyno ar gyfer arolwg prif gam 24-25, gan gynnwys caniatáu mwy o hyblygrwydd i gyfwelwyr o ran sut y maent yn cyflwyno ac yn cychwyn yr arolwg a lleihad yn nifer y cwestiynau a ofynnir am y berthynas rhwng aelodau'r aelwyd.
- 7.5 Er bod y farn ynglŷn â'r sgript Gymraeg yn gadarnhaol, roedd peth pryder bod y cwestiwn ynglŷn â dewis iaith yn cael ei ofyn yn hwyrach nag y dylai. Eto, fe arweiniodd yr adborth hwn at newid i'r cyflwyniad i'r arolwg ar gyfer prif gam 24-25.
- 7.6 Mae'r holl gyfwelwyr yn defnyddio'r un rhif ffôn gwreiddiol i geisio cysylltu â'r sampl optio-i-mewn a thele-baru (+442045575799). Dywedodd cyfwelwyr fod cyfranogwyr yn gyndyn o ateb galwadau o rif na ellir ei adnabod a allai gael ei nodi fel sbam. Ar ôl adnabod hyn, mae'r arolwg wedi cyflwyno rhif ffonio gwreiddiol pwrpasol (Caerdydd) ar gyfer prif gam 24-25. Mae gan y rhif hefyd neges wedi'i recordio sy'n ymwneud yn benodol â'r Arolwg Cenedlaethol pe bai unrhyw un yn ffonio'r rhif yn ôl i wirio dilysrwydd yr alwad.

Problem gyda negeseuon llais

- 7.7 Er bod y dyluniad gwreiddiol yn tybio y byddai cyfwelwyr yn gallu gadael hyd at bedair neges llais ar gyfer ymatebwyr nid oedd yr ymarferoldeb hwn ar gael mewn pryd ar gyfer y Prawf Maes. Gan hynny, nid oedd cyfwelwyr yn gallu gadael negeseuon llais nes bod prif gam 24-25 wedi cael ei lansio.

Adborth ymatebwyr

- 7.8 Yn ogystal â'r adborth ar y rhif generig a amlygir uchod, roedd y thema ganolog arall yn ymwneud â'r ffaith bod hyd yr arolwg yn fwy na'r disgwyl, er bod yr adborth hwn wedi dod yn bennaf trwy'r cyfwelwyr yn hytrach nag yn uniongyrchol gan yr ymatebwyr eu hunain. I helpu i liniaru hyn, cafodd y ffracsiynau is-samplu eu diweddarau yn ystod gwaith maes y Prawf Maes i leihau hyd y cyfweliad ar y cyfan ar gyfer pob ymatebydd.

Amseriadau yn ôl dull

- 7.9 Roedd cyfweliadau CATI yn hwy ar gyfartaledd na chyfweliadau CAPI, a dywedodd cyfwelwyr fod tudalennau'n araf yn newid wrth weinyddu'r arolwg CATI. Cafodd gwelliannau i god y sgript eu hadnabod yn ddiweddarach i helpu i leihau hyd y cyfweliad CATI cyn prif gam 24-25.
- 7.10 Roedd hyd canolrifol cyfweliadau (CATI) yn 46 munud, o'i gymharu â 33 munud yn CAPI (ffigur 5.9, isod), gyda'r CAWI/ CASI yn cofnodi hydoedd cyfweliadau canolrifol cyson (16 munud). Er bod y ddau ddull yn rhedeg am yn llawer hwy nag a fwriadwyd yn wreiddiol roedd hyn yn broblem yn arbennig i'r CATI.

Tabl 9: Amseriadau yn ôl dull

Ffigur 5.9		Amser mewn munudau	
	n a gwblhawyd yn llawn	Cymedr	Canolrif
CATI	163 ⁴	47	46
CAWI	161	17	16
CAPI	53	35	33
CASI	53	19	16

⁴ Mae'r nifer a gwblhawyd yn is na'r ffigwr ar y cyfan gan bod allanolion eithafol wedi cael eu tynnu o'r cyfrifiadau

Prosesau technegol

- 7.11 Hyd at 2022-23, roedd y llythyr rhag blaen yn ysgogi ymatebwyr i deipio cyfeiriad y wefan i mewn i fynd â hwy at dudalen gofrestru Llywodraeth Cymru [<https://www.llyw.cymru/arolwgcymru>]. Roedd llythyr rhag blaen y Prawf Maes hefyd, am y tro cyntaf, yn cynnwys cod QR a fyddai, o'i sganio, yn mynd ag ymatebwyr yn uniongyrchol at y wefan. Er bod tystiolaeth bod rhai ymatebwyr wedi defnyddio'r cod QR i gyrraedd y dudalen gofrestru, mae'r data defnydd yn anghyflawn gan mai dim ond teithiau lle'r oedd ymatebwyr yn derbyn y cais i ddefnyddio cwcis wrth fynd i mewn i wefan LIC oedd yn gallu cael eu tracio, a bod y mwyafrif o ymatebwyr wedi gwrthod hyn. Fodd bynnag, bydd y cod QR yn parhau i gael ei gynnwys ar y llythyr rhag blaen yn y dyfodol.
- 7.12 Yn yr un modd, o ystyried maint cyfyngedig y sampl a'r ffenestr wedi'i chwtogi ar gyfer y gwaith maes, ceir cydnabyddiaeth nad oedd rhyw lawer o gyfle i ddeall effaith clustnodi 33% o'r sampl i fod yn CATI yn unig. Er nad anfonwyd ail neges atgoffa yn ystod y Prawf Maes, roedd y gyfradd optio-i-mewn gymharol isel yn dynodi y byddai llythyr o'r fath yn fanteisiol a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio trwy gydol prif gam 24-25.
- 7.13 Cyflawnwyd ymarfer tele-baru ar yr holl gyfeiriadau a samplwyd, gyda hanner haenedig ar hap yr holl achosion yn cael eu paru gan ddefnyddio gwasanaeth wedi'i awtomeiddio, a'r hanner a oedd yn weddill yn cael eu paru'n ychwanegol gan ddefnyddio dull estynedig sy'n ategu â pharu ychwanegol â llaw. Er bod yr ail yn fwy drud o lawer na'r cyntaf, roedd gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb yn awgrymu y byddai tele-baru â llaw'n rhoi gwerth am arian a bwriedir parhau â'r dull hwn ar gyfer prif gam 24-25.
- 7.14 Fe wnaeth nifer o gyfwelwyr ddefnyddio neu ofyn am dechnoleg ychwanegol i wella'r profiad o gynnal cyfweiliadau dros y ffôn, gan gynnwys clustffonau a bysellfyrddau i'w cysylltu â llechi. Yn dilyn y Prawf Maes fe gytunwyd y dylai'r gwaith maes CATI gael ei gynnal â gliniadur fel treial ar gyfer peilot 24-25, yn rhannol er mwyn deall sut yr oedd profiad defnyddwyr yn amrywio rhwng y gliniadur a'r llechen wreiddiol ond yn bennaf am bod meddalwedd yr arolwg yn rhedeg yn gyflymach (h.y. gyda llai o oedi rhwng cwestiynau) ar y gliniadur. Yn dilyn adborth cadarnhaol

o'r peilot, bwriedir gofyn i'r holl gyfwelwyr gwblhau eu gwaith maes CATI ar liniadur ar gyfer prif gam 24-25, ond parhau i ddefnyddio llechen i gwblhau rhan CAPI y gwaith maes.

